Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

**Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Esemptiadau Trawsgydymffurfio a Rheoleiddio Trosiannol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022**

**13 Mai 2022**

| | |
|---|---|
| | **Lesley Griffiths AS** |
| **GAN** | **Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

Bydd Aelodau'r Senedd yn dymuno bod yn ymwybodol ein bod yn rhoi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnwyd am gytundeb gan Victoria Prentis, y Gweinidog Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd, i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Esemptiadau Trawsgydymffurfio a Rheoleiddio Trosiannol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 i fod yn gymwys mewn perthynas â Phrydain Fawr.

Bydd yr Offeryn Statudol uchod yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r OS yn diwygio Rheoliad (UE) 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhif 9/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 a (EC) Rhif 1234/2007, er mwyn sicrhau bod darpariaethau sy'n ymwneud â rhaglenni gwenynyddiaeth a rheolau marchnata olew olewydd yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Gosodwyd y rheoliadau gerbron y Senedd ar 11 Mai i ddod i rym ar 12 Mai.